

# Diwygio Rheolau Sefydlog

## Rheol Sefydlog 34 a chymryd rhan o bell yn nhrefodion y Senedd

Gorffennaf 2022

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), y Pwyllgor Busnes sy'n gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.

Mae'r adroddiad hwn yn argymhell y dylid caniatáu i Reol Sefydlog 34 (Gweithdrefnau Brys) dros dro, a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2020 mewn ymateb i bandemig COVID-19, ddod i ben fel y trefnwyd ar gyfer 1 Awst 2022 a bod Rheolau Sefydlog 6, 12 ac 17 yn cael eu diwygio i roi effaith barhaol i rai o'i darpariaethau. Mae'r adroddiad hefyd yn argymhell y dylid parhau i gymryd rhan o bell yn y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor.

Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynigion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog fel yn Atodiad A. Mae'r Rheolau Sefydlog diwygiedig, os cânt eu cymeradwyo, yn Atodiad B.



## **Cynnwys**

---

Cynnwys.....	2
<b>Cefndir.....</b>	<b>3</b>
Adolygu Rheol Sefydlog 34 a chymryd rhan o bell yn nhrefodion y Senedd .....	3
<b>Casgliadau'r Pwyllgor Busnes.....</b>	<b>6</b>
<b>Darpariaethau Rheol Sefydlog 34.....</b>	<b>7</b>
Llywydd Dros Dro Dynodedig .....	7
Cadeirydd Dros Dro yn y Cyfarfodydd Llawn .....	7
Y Llywydd yn adalw'r Senedd .....	8
Cworwm yn y Cyfarfod Llawn .....	8
Pleidleisio (wedi'i bwysoli) yn y Cyfarfod Llawn .....	9
Pleidleisio (o bell) yn y Cyfarfod Llawn .....	9
Pleidleisio mewn pwyllgorau .....	9
Hygyrchedd Cyfarfodydd Llawn a Hygyrchedd Cyfarfodydd Pwyllgor .....	10
Cwestiynau Llafar .....	10
Pwyllgor Cyfrifol o dan Reol Sefydlog 21 .....	11
<b>Penderfyniad.....</b>	<b>12</b>
<b>Atodiad A – Newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog 6, 12 ac 17, a nodiadau esboniadol.....</b>	<b>13</b>
<b>Atodiad B – Rheolau Sefydlog 6, 12 ac 17, fel y'i diwygiwyd .....</b>	<b>16</b>

## Cefndir

1. Ar 18 a 23 Mawrth 2020, cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd ar Reol Sefydlog 34 (Gweithdrefnau Brys) er mwyn hwyluso parhad busnes y Senedd yn ystod brigiad o achosion o COVID-19. I ddechrau, roedd y darpariaethau brys hyn i fod i ddod i ben pan ddiddymwyd y Bumed Senedd ond cawsant eu hestyn ym mis Mawrth 2021 tan 1 Awst 2022, neu pryd bynnag y bydd y Senedd yn penderfynu felly, pa un bynnag sydd gyntaf.
2. O ystyried y cyfyngiadau COVID-19 parhaus a oedd ar waith bryd hynny, roedd estyn y darpariaethau yn hwyluso parhad busnes ar ddechrau'r Chweched Senedd ac yn rhoi amser i'r Pwyllgor Busnes nesaf adolygu gweithrediad y Rheol Sefydlog.

## Adolygu Rheol Sefydlog 34 a chymryd rhan o bell yn nhrefodion y Senedd

3. Ym mis Mawrth 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gychwyn adolygiad o Reol Sefydlog 34 cyn iddi ddod i ben, ac i ystyried dyfodol cymryd rhan o bell yn nhrefodion y Senedd fel rhan o'r adolygiad hwnnw. Gwaned hyn oherwydd, er nad yw gallu Aelodau i gyfrannu o bell yn nhrefodion hybrid a rhithwir y Senedd yn dibynnu ar Reol Sefydlog 34 ac felly nid oes angen unrhyw newidiadau i'r Rheol Sefydlog er mwyn iddi barhau<sup>1</sup>, mae'n cynnwys darpariaethau cysylltiedig sy'n galluogi pleidleisio o bell neu bwysoli pleidleisiau a hygyrchedd cyhoeddus i'r Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor.
4. Er mwyn llywio ei benderfyniadau, gwahoddodd y Pwyllgor Busnes dystiolaeth gan amrywiaeth o ffynonellau. Daeth yr ymatebion a ganlyn i law'r Pwyllgor:
  - 35 o ymatebion i arolwg dienw ar gyfer Aelodau'r Senedd, a oedd yn gwahodd safbwyntiau ar gymryd rhan o bell yn nhrefodion y Cyfarfod Llawn a phwyllgorau, a phleidleisio o bell yn y Cyfarfod Llawn;
  - ymatebion ysgrifenedig gan ddau grŵp plaid;

---

<sup>1</sup> Nid yw'r Rheolau Sefydlog yn trafod o ba leoliad/leoliadau y gall Aelodau gyfrannu at y trafodion, sydd wedi hwyluso'r Senedd i ymateb i'r pandemig mewn modd hyblyg.

---

- ymateb ysgrifenedig gan Fforwm y Cadeiryddion mewn perthynas â materion yn ymwneud â thrafodion pwyllgorau; a
  - gohebiaeth gan Rwydwaith Cydraddoldeb Menywod (WEN) Cymru.
- 5.** Roedd yr arolwg hwn yn gofyn am farn yr Aelodau ynghylch a ddylid parhau i (a) cymryd rhan o bell yn y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor, a (b) pleidleisio o bell yn y Cyfarfod Llawn, yn dilyn pandemig COVID-19. Gofynnwyd hefyd a ddylai'r darpariaethau hyn gael eu cyfyngu neu eu hamodi mewn unrhyw ffordd pan na fydd y sail resymegol bresennol ar gyfer iechyd y cyhoedd bellach yn gymwys.
  - 6.** Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r arolwg yn cefnogi bod Aelodau yn gallu parhau i gymryd rhan o bell yn holl drafodion y Senedd. Gwahaniaethwyd rhywfaint rhwng gwahanol fathau o gyfarfodydd, gyda mwy o gefnogaeth i gymryd rhan o bell mewn pwyllgorau nag ar gyfer Cyfarfodydd Llawn, a hynny i dystion yn arbennig. Roedd yr ymatebion a gafwyd gan grwpiau Llafur a Phlaid Cymru hefyd yn cefnogi parhau â thrafodion hybrid ar gyfer y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor.
  - 7.** Roedd y rhesymau a roddwyd o blaid parhau i gymryd rhan o bell yn cynnwys y gallu i ddenu Aelodau mwy amrywiol mewn etholiadau yn y dyfodol, y manteision y gall trefniadau o'r fath eu cynnig i'r rheini sydd â chyfrifoldebau rhiant a chyfrifoldebau gofalu eraill, a llai o angen i deithio, gan arwain at arbedion o ran cost, amser ac allyriadau carbon. Roedd yr Aelodau nad oeddent am barhau i ganiatáu cymryd rhan o bell yn teimlo ei fod yn effeithio ar ansawdd dadleuon a gwaith craffu. Mewn nifer o ymatebion, awgrymwyd y dylai Aelodau gymryd rhan yn bersonol fel arfer, gyda'r opsiwn i gymryd rhan o bell o dan amgylchiadau cyfyngedig yn unig.
  - 8.** Roedd yr ohebiaeth a gafwyd gan Rwydwaith Cydraddoldeb Menywod (WEN) Cymru yn annog pwysigrwydd cadw gweithio hybrid er budd y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu, yn enwedig menywod â rolau gofalu, a phobl anabl.
  - 9.** Ymatebodd Fforwm y Cadeiryddion drwy gefnogi bod yr opsiwn i gynnal cyfarfodydd pwyllgor rhithwir, neu ar ffurf hybrid, yn parhau i fod ar gael hyd y gellir rhagweld, gyda phenderfyniadau ynghylch dull y cyfarfod yn parhau i fod yn fater i Gadeiryddion pwyllgorau benderfynu arno fesul cyfarfod.
  - 10.** Cafwyd safbwyntiau gwahanol mewn perthynas â ffurf presenoldeb tystion. Er bod yr holl ymatebwyr yn cefnogi parhau â'r gallu i dystion fynychu cyfarfodydd pwyllgor o bell, roedd yna farn wahnaol o ran presenoldeb

Gweinidogion. Dadleuodd y grŵp Llafur y dylid trin Gweinidogion yn yr un modd ag Aelodau eraill o ran a ydynt yn mynychu cyfarfodydd pwyllgor yn bersonol neu o bell, ond barn Fforwm y Cadeiryddion oedd y dylai Gweinidogion fod yn bresennol yn bersonol fel dewis diofyn, ond y gallent gael caniatâd i gymryd rhan yn rhithiol gyda chytundeb ymlaen llaw gan y Cadeirydd, yn yr un modd ag eraill sy'n mynychu fel gwahoddedigion.

- 11.** Mynegodd Fforwm y Cadeiryddion y farn y dylai canllawiau gyfleu'n dryloyw y dull gweithredu sydd i'w fabwysiadu o ran presenoldeb mewn cyfarfodydd pwyllgor, ac i nodi'r ymddygiad a'r safonau a ddisgwylir gan gyfranogwyr.
- 12.** Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i arolwg yr Aelodau o blaid parhau i bleidleisio o bell. Roedd y rhesymau a nodwyd o blaid y gefnogaeth yr un fath â'r rhai o blaid cymryd rhan o bell, gyda rhai'n mynegi'r farn na ellir gwahaniaethu rhwng y ddwy agwedd. Roedd yr ymatebion a oedd yn dadlau yn erbyn pleidleisio o bell yn cyfeirio at y potensial i Aelodau beidio â chymryd rhan mewn trafodion heblaw i bleidleisio.
- 13.** Roedd ymatebion y grŵp Llafur a grŵp Plaid Cymru, yn ogystal ag ymatebion sawl Aelod i'r arolwg, yn nodi mai cyfrifoldeb yr Aelodau unigol yw sicrhau eu bod yn bresennol ac yn gallu pleidleisio cyn i unrhyw bleidleisiau gael eu cymryd, ni waeth a ydynt yn pleidleisio o bell neu yn bersonol.
- 14.** Nododd mwyafrif bach o'r Aelodau a ymatebodd i'r arolwg gefnogaeth amodol ar gyfer pleidleisio o bell, gan gynnwys y dylai fod ar gael mewn rhai amgylchiadau neu o leoliadau penodol yn unig, ac y dylai'r hyn sy'n dderbyniol neu'n annerbyniol yn ystod y cyfnod pleidleisio gael ei nodi'n glir.

## Casgliadau'r Pwyllgor Busnes

**15.** Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried y materion a oedd yn deillio o'r adolygiad mewn cyfarfodydd ar 14 Mehefin, 21 Mehefin a 5 Gorffennaf 2022. Yng ngoleuni'r safbwyntiau a'r dystiolaeth a ddaeth i law, mae'r Pwyllgor yn cynnig y canlynol:

- Dylid parhau i ganiatáu i Aelodau gymryd rhan o bell yn y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor;
- Dylai aelodau o bwyllgorau gael yr hyblygrwydd i ddewis sut i gymryd rhan mewn trafodion pwyllgorau fesul cyfarfod, gan ystyried y busnes sydd o dan sylw ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Llywydd yn unol â Rheol Sefydlog 6.17. Cadeiryddion pwyllgorau fydd yn gyfrifol yn gyffredinol am wneud penderfyniadau ynghylch y fformat ar gyfer cynnal cyfarfodydd a hynny ar ôl ymgynghori â'u pwyllgorau;
- Dylai'r disgwyliadau o ran presenoldeb mewn cyfarfodydd pwyllgor, gan gynnwys mewn perthynas â Gweinidogion ac eraill sy'n bresennol fel tystion, gael eu nodi mewn canllawiau a gyhoeddir gan y Llywydd gan ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes a Fforwm y Cadeiryddion, fel y bo'n briodol;
- Dylid caniatáu i Reol Sefydlog 34 ddod i ben fel y trefnwyd ar gyfer 1 Awst 2022, gyda nifer o ddarpariaethau'n cael eu cadw drwy eu trosi i Reolau Sefydlog 6, 12 ac 17. Amlinellir cynigion y Pwyllgor Busnes ar bob un o'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn Rheol Sefydlog 34 yn yr adran a ganlyn;
- Dylid diwygio Rheol Sefydlog 17.35 i ganiatáu pleidleisio drwy alw'r gofrestr yn nhrefodion pwyllgorau;
- Dylid diwygio Rheolau Sefydlog 12.1 a 17.40 i'w gwneud yn glir bod yn rhaid darlledu cyfarfodydd yn fyw a bod cyfarfod yn gyfarfod cyhoeddus pan fo darllediad byw ar gael; a
- Dylid nodi materion yn ymwneud â phresenoldeb, ymddygiad a phleidleisio mewn trafodion hybrid a rhithwir, gan gynnwys pwysleisio mai cyfrifoldeb Aelodau unigol yw sicrhau cysylltiad dibynadwy a sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad i'r system bleidleisio cyn unrhyw bleidleisiau, mewn canllawiau a gyhoeddir gan y Llywydd gan

ymgyngori â'r Pwyllgor Busnes a Fforwm y Cadeiryddion, fel y bo'n briodol.

## Darpariaethau Rheol Sefydlog 34

- 16.** Mae'r Pwyllgor Busnes wedi ystyried y safbwyntiau a ddaeth i law a'r defnydd o ddarpariaethau Rheol Sefydlog 34 hyd yma ac wedi gwneud y cynigion a ganlyn:

### **Llywydd Dros Dro Dynodedig**

- 17.** Cynigir y dylid caniatáu i Reolau Sefydlog 34.2-4 ddod i ben ar 1 Awst 2022.
- 18.** Mae'r darpariaethau hyn yn caniatáu i'r Senedd ethol Llywydd Dros Dro dynodedig a fyddai'n gallu arfer swyddogaethau'r Llywydd o dan amgylchiadau lle nad yw'r Llywydd na'r Dirprwy Lywydd yn gallu gweithredu, boed hynny o bell neu yn bersonol.
- 19.** Derbyniwyd cynnig ar 18 Mawrth 2020 yn y Bumed Senedd i ethol David Melding AC yn Llywydd Dros Dro dynodedig, er na fu'n rhaid iddo gyflawni'r rôl hon yn ymarferol. Nid oes unrhyw Lywydd Dros Dro dynodedig wedi'i ethol yn ystod y Chweched Senedd.
- 20.** Yn absenoldeb y ddarpariaeth hon, mae Rheol Sefydlog 6.24 yn caniatáu i'r Clerc gymryd y gadair er mwyn trefnu i ethol Llywydd dros dro bob tro y bydd y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn methu gweithredu.

### **Cadeirydd Dros Dro yn y Cyfarfodydd Llawn**

- 21.** Cynigir bod Rheolau Sefydlog 34.5-8 yn cael eu hymgorffori yn Rheol Sefydlog 6 a'u cadw i'w defnyddio yn y dyfodol fel opsiwn wrth gefn, pe bai salwch neu absenoldeb yn golygu na all y Llywydd na'r Dirprwy Lywydd gadeirio trafodion y Cyfarfod Llawn.
- 22.** Mae'r Rheolau Sefydlog hyn wedi'u cynllunio ar gyfer sefyllfa lle nad yw'r Llywydd na'r Dirprwy yn gallu cadeirio cyfarfodydd llawn ond yn parhau i allu arfer swyddogaethau'r Llywydd. Maent yn darparu dull i'r Senedd ethol, ymlaen llaw, Gadeirydd Dros Dro yn y Cyfarfod Llawn a all gyflawni swyddogaethau llawn y Llywydd mewn perthynas â chadeirio cyfarfodydd llawn er mwyn sicrhau bod y trafodion yn rhedeg yn ddidrafferth.
- 23.** Mae'r swyddogaethau hyn yn mynd y tu hwnt i'r rhai sydd ar gael i Gadeirydd Dros Dro o dan Reol Sefydlog 6.24, gan gynnwys:

- Holl swyddogaethau'r Llywydd o dan Reol Sefydlog 13 i gadw trefn yn y Cyfarfod Llawn, gan gynnwys y gallu i wahardd Aelod o drafodion y Senedd;
- Y gallu i gynnal pleidlais ac arfer pleidlais fwrw;
- Y gallu i wneud datganiad ar ran y Llywydd;
- Penderfyniadau ar fusnes brys a busnes heb roi hysbysiad;
- Penderfynu ar gwestiynau ynghylch dehongli neu gymhwyso'r Rheolau Sefydlog i'r graddau y mae'n angenrheidiol i waredu busnes y Cyfarfod Llawn y diwrnod hwnnw.

**24.** Derbyniwyd cynnig yn y Bumed Senedd ar 18 Mawrth 2020 i ethol David Melding AC yn Gadeirydd Dros Dro, er na chafodd y rôl ei defnyddio'n ymarferol.<sup>2</sup> Nid oes Llywydd Dros Dro Dynodedig wedi'i ethol yn ystod y Chweched Senedd hyd yn hyn. Fodd bynnag, cynigir y dylid cadw'r gallu i wneud hynny er mwyn galluogi'r Senedd i ethol Aelod i gyflawni'r swyddogaethau hyn mewn modd cynlluniedig er mwyn sicrhau cyn lleied o amhariaeth â phosibl i fusnes.

## **Y Llywydd yn adalw'r Senedd**

**25.** Cynigir y dylid caniatáu i Reol Sefydlog 34.9 ddod i ben ar 1 Awst 2022.

**26.** Cyflwynwyd y ddarpariaeth hon er mwyn darparu dull uniongyrchol i'r Llywydd, gyda chytundeb y Pwyllgor Busnes, adalw'r Senedd i ystyried mater sydd o bwys cyhoeddus brys sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd.

**27.** Ar 24 Mawrth 2021, cytunodd y Senedd i greu Rheol Sefydlog 12.3A newydd a fyddai'n rhoi sefydlogrwydd i'r ddarpariaeth dros dro o dan Reol Sefydlog 34.9 ac yn ehangu ei defnydd y tu hwnt i faterion iechyd y cyhoedd, gan ychwanegu gofyniad ychwanegol i'r Llywydd hefyd ymgynghori â'r Prif Weinidog. Defnyddiwyd y ddarpariaeth barhaol newydd hon ar gyfer adalw ar 22 Rhagfyr 2021.

## **Cworwm yn y Cyfarfod Llawn**

**28.** Cynigir y dylid caniatáu i Reol Sefydlog 34.10 ddod i ben ar 1 Awst 2022.

---

<sup>2</sup> Parhaodd David Melding i weithredu fel Cadeirydd Dros Dro yn y Cyfarfodydd Llawn fel y darperir ar ei gyfer gan Reol Sefydlog 6.22.



**29.** Y rhesymeg dros bennu trothwy cworwm is (pedwar, a bod yr Aelodau hynny'n cynrychioli mwy nag un grŵp gwleidyddol) ar ddechrau pandemig Covid-19 oedd lliniaru'r risg y gallai llai na 10 Aelod fod ar gael ar gyfer pleidlais, ac ystyried cyfyngiadau ar nifer yr Aelodau a allai gymryd rhan o bell ar ddechrau'r pandemig. Mae hyn wedi'i ddisodli gan y gallu i bob Aelod fod yn bresennol mewn Cyfarfod Llawn rhithwir a thrwy gyflwyno system bleidleisio o bell.

### **Pleidleisio (wedi'i bwysoli) yn y Cyfarfod Llawn**

**30.** Cynigir y dylid caniatáu i Reolau Sefydlog 34.11-14 ddod i ben ar 1 Awst 2022.

**31.** Cyflwynwyd darpariaethau i alluogi Aelod enwebedig o bob grŵp gwleidyddol i gael yr un nifer o bleidleisiau ag sydd o aelodau'r grŵp ar ddechrau'r pandemig mewn ymateb i'r amgylchiadau ar y pryd, yn benodol yr angen brys i gymryd camau i gyfyngu ar ledaeniad COVID-19 ac felly i gyfyngu ar nifer yr Aelodau sy'n gallu cymryd rhan a phleidleisio mewn trafodion.

**32.** Defnyddiwyd y darpariaethau hyn rhwng 8 Ebrill ac 1 Gorffennaf 2020, ond nid ydynt wedi bod yn ofynnol ers cyflwyno system pleidleisio o bell ar 8 Gorffennaf 2020, ac ers hynny mae Aelodau wedi gallu pleidleisio'n unigol.

### **Pleidleisio (o bell) yn y Cyfarfod Llawn**

**33.** Cynigir bod Rheol Sefydlog 12.41 yn cael ei diwygio i ddileu'r gofyniad i Aelodau fwrw eu pleidlais yn bersonol. Bydd hyn yn galluogi pleidleisio o bell i barhau fel darpariaeth barhaol ac yn galluogi Rheolau Sefydlog 34.14A-D dros dro i ddod i ben ar 1 Awst 2022.

**34.** Mae'r Pwyllgor Busnes hefyd yn cynnig ychwanegu Rheolau Sefydlog newydd i'w gwneud yn glir mai cyfrifoldeb yr Aelod yw sicrhau ei fod yn gallu cael mynediad i'r system bleidleisio cyn unrhyw bleidleisiau, ac y dylai'r Llywydd gyhoeddi canllawiau pellach ynghylch y modd y cynhelir pleidleisiau yn y Cyfarfod Llawn drwy ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes.

### **Pleidleisio mewn pwyllgorau**

**35.** Cynigir y dylid caniatáu i Reolau Sefydlog 34.14E-F ddod i ben ar 1 Awst 2022 ac y dylid diwygio Rheol Sefydlog 17 i alluogi pleidleisio drwy alw'r gofrestr mewn trafodion pwyllgor;

- 36.** Roedd Rheolau Sefydlog 34.14E-F yn caniatáu pleidleisio electronig o bell mewn cyfarfodydd pwyllgor, ond ni ddefnyddiwyd y ddarpariaeth hon yn ymarferol.
- 37.** Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno, yn dilyn sylwadau gan Fforwm y Cadeiryddion, y dylid caniatáu i'r darpariaethau hyn ddod i ben a bod Rheol Sefydlog 17.35 yn cael ei diwygio i alluogi pleidleisio drwy alw cofrestr mewn pwyllgorau (yn ogystal â thrwy godi dwylo), ar y sail bod hwn yn ddull mwy priodol mewn cyfarfodydd rhithwir neu hybrid na'r arfer o godi dwylo.

## **Hygyrchedd Cyfarfodydd Llawn a Hygyrchedd Cyfarfodydd Pwyllgor**

- 38.** Cynigir y dylid caniatáu i Reolau Sefydlog 34.15-17 a 34.19-21 ddod i ben ar 1 Awst 2022 a bod Rheolau Sefydlog 12.1 a 17.40 yn cael eu diwygio i egluro bod mynediad ar gyfer darlledu yn golygu darllediad byw, a bod cyfarfod a ddarlledir yn fyw yn golygu trafodion a gynhelir yn gyhoeddus yn unol ag adran 31 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## **Cwestiynau Llafar**

- 39.** Cynigir y dylid caniatáu i Reol Sefydlog 34.18 ddod i ben ar 1 Awst 2022.
- 40.** Roedd y ddarpariaeth a oedd yn galluogi'r Llywydd, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, i ddatgymhwyso'r gofynion o dan Reol Sefydlog 12.56<sup>3</sup> yn adlewyrchu'r amgylchiadau yn ystod cyfnod cychwynnol y pandemig pan: roedd fformat y Cyfarfod Llawn yn ansicr; roedd cap ar nifer yr Aelodau a oedd yn gallu mynychu'r Cyfarfod Llawn (gan olygu na fyddai pob Aelod a fu'n llwyddiannus mewn balot yn bresennol yn y Siambr i ofyn y cwestiynau a gyflwynwyd ganddynt); a gallai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ymdrechion ar ei hymateb i'r argyfwng iechyd y cyhoedd.
- 41.** Mae datblygiad trafodion hybrid a rhithwir, yn ogystal â dychwelyd i fusnes arferol y llywodraeth, wedi disodli'r angen am y ddarpariaeth hon. Mewn sefyllfaoedd brys yn y dyfodol, gellid defnyddio Rheol Sefydlog 33.6 i atal y cyfan neu ran o Reol Sefydlog 12.56 fel y bernir ei bod yn angenrheidiol ar y pryd.

---

<sup>3</sup>I'r Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a'r Comisiwn ateb cwestiynau llafar yn y Cyfarfod Llawn.

---

## **Pwyllgor Cyfrifol o dan Reol Sefydlog 21**

- 42.** Cynigir y dylid caniatáu i Reolau Sefydlog 34.22-23 ddod i ben ar 1 Awst 2022.
- 43.** Dim ond ar ddechrau'r pandemig, a hynny dim ond am gyfnod byr, y defnyddiwyd Rheol Sefydlog 34.22(i), sy'n galluogi Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3<sup>4</sup> i gael eu datgymhwyso (cafodd ei wrthdroi ar 17 Ebrill 2020). Ni ddefnyddiwyd Rheol Sefydlog 34.22(ii), sy'n galluogi'r swyddogaethau hynny i gael eu cyflawni gan y Senedd gyfan, a Rheol Sefydlog 34.23, sy'n galluogi'r pwyllgor cyfrifol i gyflwyno adroddiad yn ddiweddarach na'r rheol 20 diwrnod a nodir yn Rheol Sefydlog 21.4.
- 44.** Y rheswm am hyn oedd bod Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Bumed Senedd a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad yn y Chweched Senedd wedi gallu cyfarfod yn rhithwir, ac wedi gweithio'n gyflym iawn wrth graffu ac adrodd ar reoliadau yn ymwneud â COVID-19 a rheoliadau eraill. Ers i bwyllgorau allu cwrdd yn rhithiol neu ar ffurf hybrid, nid oes bellach angen gwneud darpariaeth ar gyfer amgylchiadau lle'r oedd y Senedd yn gallu cwrdd ond nid y pwyllgorau.

---

<sup>4</sup> Yn ymwneud â'r pwyllgor cyfrifol yn ystyried offerynnau statudol neu offerynnau statudol drafft.

## Penderfyniad

- 45.** Ar 5 Gorffennaf 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes yn ffurfiol i gynnig newidiadau i'r Rheolau Sefydlog, a gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r Rheolau Sefydlog newydd arfaethedig yn Atodiad B.
- 46.** Gwahoddir y Senedd hefyd i nodi y bydd canllawiau'n cael eu cyhoeddi gan y Llywydd yn unol â Rheol Sefydlog 6.17 – drwy ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes a Fforwm y Cadeiryddion, fel y bo'n briodol – i ymdrin ag amrywiaeth o faterion, gan gynnwys presenoldeb ac ymddygiad a phleidleisio yn y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor ac y bydd y canllawiau hyn yn cael eu hadolygu'n barhaus yng ngoleuni profiad yn ystod y Chweched Senedd.

## Atodiad A – Newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog 6, 12 ac 17, a nodiadau esboniadol

### RHEOL SEFYDLOG 6 – Y Llywydd a'r Dirprwy

Cadeirydd Dros Dro yn y Cyfarfodydd Llawn	Mewnosod pennawd newydd
<p>6.23A <u>Caiff y Senedd ethol Cadeirydd Dros Dro at ddibenion cadeirio cyfarfodydd llawn.</u></p>	<p><b>Mewnosod Rheol Sefydlog newydd</b></p> <p>Byddai'r Rheol Sefydlog newydd arfaethedig yn trosi Rheol Sefydlog 34.5 dros dro i Reol Sefydlog 6 ac yn galluogi parhau â'r ddarpariaeth ar gyfer ethol Cadeirydd Dros Dro Cyfarfodydd Llawn ymlaen llaw.</p>
<p>6.23B <u>O ran swyddogaethau'r Llywydd, dim ond y swyddogaethau a ganlyn y caiff Cadeirydd Dros Dro a etholir o dan Reol Sefydlog 6.23A ymgymryd â hwy:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><u>(i) swyddogaethau mewn perthynas â busnes yn y cyfarfodydd llawn o dan Reol Sefydlog 12;</u></li> <li><u>(i) swyddogaethau mewn perthynas â threfn yn y cyfarfodydd llawn o dan Reol Sefydlog 13;</u></li> <li><u>(ii) unrhyw swyddogaethau eraill mewn perthynas â busnes yn y cyfarfodydd llawn.</u></li> </ul>	<p><b>Mewnosod Rheol Sefydlog newydd</b></p> <p>Byddai'r Rheol Sefydlog newydd arfaethedig yn trosi Rheol Sefydlog 34.6 dros dro i Reol Sefydlog 6 ac yn pennu'r swyddogaethau y caiff Cadeirydd Dros Dro eu cyflawni.</p>
<p>6.23C <u>Dim ond ar ôl i'r Clerc hysbysu'r Senedd fod y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn methu â chadeirio cyfarfodydd llawn y caiff Cadeirydd Dros Dro ymgymryd â'r swyddogaethau a bennir o dan Reol Sefydlog 6.23A.</u></p>	<p><b>Mewnosod Rheol Sefydlog newydd</b></p> <p>Byddai'r Rheol Sefydlog newydd arfaethedig yn trosi Rheol Sefydlog 34.7 dros dro i Reol Sefydlog 6 ac yn pennu'r broses i Gadeirydd Dros Dro ei dilyn er mwyn cyflawni swyddogaethau'r rôl.</p>

<p>6.23D <u>Bydd Cadeirydd Dros Dro yn peidio ag arfer y swyddogaethau hyn pan fydd y Clerc yn hysbysu'r Senedd fod naill ai'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd yn gallu cadeirio cyfarfodydd llawn.</u></p>	<p><b>Mewnosod Rheol Sefydlog newydd</b> Byddai'r Rheol Sefydlog newydd arfaethedig yn trosi Rheol Sefydlog 34.8 dros dro i Reol Sefydlog 6 ac yn pennu'r broses lle bydd Cadeirydd Dros Dro yn peidio ag arfer swyddogaethau'r rôl.</p>
--	--

## RHEOL SEFYDLOG 12 – Busnes yn y Cyfarfodydd Llawn

<p>Cyfarfodydd Llawn</p>	<p>Cadw'r pennawd presennol</p>
<p>12.1 Rhaid i gyfarfodydd llawn y Senedd gael eu cynnal yn gyhoeddus a rhaid caniatáu mynediad ar gyfer darlledu yn unol â'r trefniadau y bydd y Comisiwn yn cytuno arnynt. <u>Mae Cyfarfod Llawn a ddarlledir yn fyw yn gyfystyr â thrafodion cyhoeddus.</u></p>	<p><b>Diwygio Rheol Sefydlog</b> Mae'r diwygiad arfaethedig yn egluro bod Cyfarfod Llawn gyda darllediad byw yn gyfystyr â chyfarfod cyhoeddus at ddibenion y Rheolau Sefydlog.</p>
<p>Penderfyniadau ar Gynigion a Gwelliannau</p>	<p>Cadw'r pennawd presennol</p>
<p>12.41 Yn ddarostyngedig i Reolau Sefydlog 12.41A-H <u>ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 6.17</u>, rhaid i'r Aelodau fwrw eu pleidlais yn unigol <del>ac yn bersonol</del> (ond nid yw'n ofynnol iddynt bleidleisio).</p>	<p><b>Diwygio Rheol Sefydlog</b> Mae'r diwygiad arfaethedig yn dileu'r gofyniad i bleidleisiau gael eu bwrw yn bersonol ac yn sicrhau ei bod yn dal yn glir bod yn rhaid i Aelodau fwrw eu pleidleisiau eu hunain. Ymdrinnir â'r sefyllfaoedd y gallant bleidleisio ynddynt a'r dechnoleg benodol i'w defnyddio mewn canllawiau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer pleidleisio electronig wedi'i hymgorffori yn Rheol Sefydlog 12.43.</p>
<p>A12.41A <u>Cyfrifoldeb Aelod yw sicrhau bod ganddo fynediad personol neu o bell i Gyfarfod Llawn ac unrhyw system bleidleisio sydd ar waith, cyn pleidlais y mae'n bwriadu cymryd rhan ynddi.</u></p>	<p><b>Mewnosod Rheol Sefydlog newydd</b> Mae'r Rheol Sefydlog newydd arfaethedig yn egluro mai Aelodau unigol sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn gallu pleidleisio.</p>

## RHEOL SEFYDLOG 17 – Gweithredu Pwyllgorau

Pleidleisio	Cadw'r pennawd presennol
<p>17.34 Os bydd pleidlais yn angenrheidiol er mwyn cwblhau'r busnes, rhaid i'r cadeirydd wahodd y pwyllgor i dderbyn y cynnig neu'r gwelliant. Os:</p> <p>(i) na fydd Aelod yn gwrthwynebu, bernir fod y cynnig neu'r gwelliant wedi'i dderbyn gan y pwyllgor; neu</p> <p>(ii) bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, rhaid cynnal pleidlais yn unol â'r ddarpariaeth yn Rheol Sefydlog 17.35.</p>	<p><b>Cadw'r Rheol Sefydlog</b></p> <p>Cynhwysir y Rheol Sefydlog er gwybodaeth</p>
<p>17.35 Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 17.34(i), pleidleisir mewn pwyllgorau drwy godi dwylo <u>neu drwy alw'r gofrestr</u>, a phan fydd unrhyw un o aelodau'r pwyllgor yn gofyn i'r bleidlais gael ei chofnodi, rhaid i enwau'r rhai sy'n pleidleisio (gan gynnwys y rhai sy'n ymatal) gael eu cofnodi yng nghofnodion trafodion y pwyllgor.</p>	<p><b>Diwygio Rheol Sefydlog</b></p> <p>Mae'r diwygiad arfaethedig yn galluogi pleidleisiau mewn cyfarfodydd pwyllgor i gael eu cynnal drwy alw'r gofrestr yn ogystal â thrwy godi dwylo. Mater i gadeirydd pwyllgor fydd penderfynu ar y dull pleidleisio a ddefnyddir, yn unol â Rheol Sefydlog 17.23.</p>
Natur Agored y Pwyllgorau	Cadw'r pennawd presennol
<p>17.40 Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 17.42, rhaid i bwyllgorau gyfarfod yn gyhoeddus, a rhaid caniatáu mynediad ar gyfer darlledu cyfarfodydd cyhoeddus yn unol â'r trefniadau y bydd y Comisiwn yn cytuno arnynt. <u>Mae cyfarfod pwyllgor a ddarlledir yn fyw yn gyfystyr â thrafodion cyhoeddus.</u></p>	<p><b>Diwygio Rheol Sefydlog</b></p> <p>Mae'r diwygiad arfaethedig yn egluro bod cyfarfod pwyllgor gyda darllediad byw yn gyfystyr â chyfarfod cyhoeddus at ddibenion y Rheolau Sefydlog.</p>

## Atodiad B – Rheolau Sefydlog 6, 12 ac 17, fel y'i diwygiwyd

### **RHEOL SEFYDLOG 6 – Y Llywydd a'r Dirprwy**

---

#### **Cadeirydd Dros Dro yn y Cyfarfodydd Llawn**

- 6.23A Caiff y Senedd ethol Cadeirydd Dros Dro at ddibenion cadeirio cyfarfodydd llawn.
- 6.23B O ran swyddogaethau'r Llywydd, dim ond y swyddogaethau a ganlyn y caiff Cadeirydd Dros Dro a etholir o dan Reol Sefydlog 6.23A ymgymryd â hwy:
- (i) swyddogaethau mewn perthynas â busnes yn y cyfarfodydd llawn o dan Reol Sefydlog 12;
  - (i) swyddogaethau mewn perthynas â threfn yn y cyfarfodydd llawn o dan Reol Sefydlog 13;
  - (ii) unrhyw swyddogaethau eraill mewn perthynas â busnes yn y cyfarfodydd llawn.
- 6.23C Dim ond ar ôl i'r Clerc hysbysu'r Senedd fod y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn methu â chadeirio cyfarfodydd llawn y caiff Cadeirydd Dros Dro ymgymryd â'r swyddogaethau a bennir o dan Reol Sefydlog 6.23A.
- 6.23D Bydd Cadeirydd Dros Dro yn peidio ag arfer y swyddogaethau hyn pan fydd y Clerc yn hysbysu'r Senedd fod naill ai'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd yn gallu cadeirio cyfarfodydd llawn.



## **RHEOL SEFYDLOG 12 – Busnes yn y Cyfarfodydd Llawn**

---

### **Cyfarfodydd Llawn**

12.1 Rhaid i gyfarfodydd llawn y Senedd gael eu cynnal yn gyhoeddus a rhaid caniatáu mynediad ar gyfer darlledu yn unol â'r trefniadau y bydd y Comisiwn yn cytuno arnynt. Mae Cyfarfod Llawn a ddarlledir yn fyw yn gyfystyr â thrafodion cyhoeddus.

### **Penderfyniadau ar Gynigion a Gwelliannau**

12.41 Yn ddarostyngedig i Reolau Sefydlog 12.41A-H ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 6.17, rhaid i'r Aelodau fwrw eu pleidlais yn unigol (ond nid yw'n ofynnol iddynt bleidleisio).

A12.41A Cyfrifoldeb Aelod yw sicrhau bod ganddo fynediad personol neu o bell i Gyfarfod Llawn ac unrhyw system bleidleisio sydd ar waith, cyn pleidlais y mae'n bwriadu cymryd rhan ynddi.

## **RHEOL SEFYDLOG 17 – Gweithredu Pwyllgorau**

---

### **Pleidleisio**

- 17.34 Os bydd pleidlais yn angenrheidiol er mwyn cwblhau'r busnes, rhaid i'r cadeirydd wahodd y pwyllgor i dderbyn y cynnig neu'r gwelliant. Os:
- (i) na fydd Aelod yn gwrthwynebu, bernir fod y cynnig neu'r gwelliant wedi'i dderbyn gan y pwyllgor; neu
  - (ii) bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, rhaid cynnal pleidlais yn unol â'r ddarpariaeth yn Rheol Sefydlog 17.35.
- 17.35 Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 17.34(i), pleidleisir mewn pwyllgorau drwy godi dwylo neu drwy alw'r gofrestr, a phan fydd unrhyw un o aelodau'r pwyllgor yn gofyn i'r pleidlais gael ei chofnodi, rhaid i enwau'r rhai sy'n pleidleisio (gan gynnwys y rhai sy'n ymatal) gael eu cofnodi yng nghofnodion trafodion y pwyllgor.

### **Natur Agored y Pwyllgorau**

- 17.40 Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 17.42, rhaid i bwyllgorau gyfarfod yn gyhoeddus, a rhaid caniatáu mynediad ar gyfer darlledu cyfarfodydd cyhoeddus yn unol â'r trefniadau y bydd y Comisiwn yn cytuno arnynt. Mae cyfarfod pwyllgor a ddarlledir yn fyw yn gyfystyr â thrafodion cyhoeddus.